Annwyl Gwsmeriaid

**Swyddfa Bost® Ystalyfera**
**50 Heol y Wern, Ystalyfera, Abertawe, SA9 2LY**

## Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

Rydym yn bwriadu, â chytundeb y Postfeistr, symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i leoliad newydd, sef Ystalyfera Stores, 47-49 Commercial, Ystalyfera, Abertawe, SA9 2HS. Bydd y symud, os wnaiff ddigwydd, yn amodol ar ymgynghoriad, yn golygu newid y gangen i fod yn un o'n canghennau lleol ffasiwn-newydd.

## Pam ydym yn symud?

Rydym yn bwriadu gwneud y symud hwn fel rhan o'r gwaith i foderneiddio ein rhwydwaith o ganghennau. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi trawsnewid dros 7,500 o ganghennau fel bod mwy o gwsmeriaid yn gallu cyrchu cynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn amgylchedd modern a chyfeillgar, ac yn aml mae hyn yn golygu oriau agor estynedig, gan gynnwys dydd Sul. Rydym yn hyderus taw cael cangen leol ochr yn ochr a siop lwyddiannus yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu gwasanaethau Swyddfa'r Post cynaliadwy yn y gymuned leol yn y dyfodol.

## Eich cangen Swyddfa'r Post newydd

Byddai cwsmeriaid yn cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn man gwasanaeth modern â chynllun agored sydd yn rhan o gownter y siop. Trwy gydweithio â'r postfeistr, byddem yn addasu patrwm presennol y siop, ynghyd â'r celfi gosod a'r ffitiadau er mwyn gwneud lle i dil Swyddfa'r Post pe bai angen. Bydd y gangen yn cynnig dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post dros oriau agor estynedig, fel gall cwsmeriaid ddefnyddio eu Swyddfa Bost pan mae'n gyfleus. Mae 96 y cant o gwsmeriaid yn fodlon â changhennau lleol ar eu newydd wedd, ac mae bron 20 y cant o gwsmeriaid canghennau lleol yn ymweld y tu allan i'r oriau agor traddodiadol.

## Ymgynghori ynglŷn â'r lleoliad newydd arfaethedig

Rydym yn dechrau ymgynghoriad cyhoeddus lleol a hoffem gael eich barn am y cynllun. Rydym yn croesawu adborth a sylwadau a all gyfrannu at ein cynlluniau, yn enwedig ynglŷn â'r canlynol:

- Pa mor hawdd yw cyrraedd y lleoliad newydd?
- A yw'n hawdd i chi fynd i mewn i'r adeilad newydd ac i symud o gwmpas y tu mewn iddo?
- A oes unrhyw faterion cymuned leol y gallai'r symud ddylanwadu arnynt?
- Pe bai'r symud yn digwydd, a oes unrhyw beth y gallem ei wneud fel ei bod yn haws i gwsmeriaid?

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Rwyf wedi amgáu taflen wybodaeth sydd yn rhoi rhagor o fanylion am y lleoliad newydd a'r dewis o gynhyrchion a fydd ar gael. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, byddwch cystal ag anfon ebost neu ysgrifennu ataf trwy ein tîm Cyfathrebu ac Ymgynghori, sydd â'i fanylion isod. Bydd unrhyw wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei hystyried wrth i ni baratoi ein cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen newydd.

Gallwch rannu eich sylwadau am y newid arfaethedig wrth lenwi ein holiadur ar-lein sy'n hawdd a chyfleus, trwy'r ddolen isod. Wrth fynd i mewn i'r safle gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgynghoriad ar gyfer gangen hon naill ai yn ôl enw'r gangen, y cod post neu'r cod unigryw ar gyfer y gangen: 270642

postofficeviews.co.uk

**Dyddiadau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus lleol:**

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol | 18 Gorffennaf 2018 |
| Diwedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol | 05 Medi 2018 |
| Mis arfaethedig y newid | Tachwedd/Rhagfyr 2018 |

Yn yr achos hwn rydym wedi caniatáu wythnos galendr ychwanegol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd y cyfnod o wyliau'r haf.  Felly, os ydych yn dymuno cysylltu â mi, sylwch taw 05/09/2018 yw'r dyddiad olaf ar gyfer pob ymholiad.

Drosodd, rwyf wedi cynnwys gwybodaeth am y Cod Ymarfer, a bydd copi o'r Cod ar gael hefyd yn y gangen.

Diolch i chi am ystyried ein cynllun.  Ar ddiwedd yr ymgynghoriad rhown wybod i chi am ein cynlluniau terfynol wrth arddangos poster yn y gangen.

Yr eiddoch yn gywir

*Annete Thomas*

**Annete Thomas**
**Rheolwraig Ardal dros Newidiadau i'r Rhwydwaith**

**Sut i gysylltu â ni:**


postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments


**Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.**

Eisiau rhoi eich barn i ni yn y fan a'r lle – Sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch sut y gwnawn hyn ar ein gwefan yn postoffice.co.uk/privacy

Bydd eitemau a anfonir trwy RADBOST yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd.  Felly, dylid anfon sylwadau trwy Radbost mewn da bryd i gyrraedd cyn diwedd y cyfnod o ymgynghori.  Nid yw diwrnodau gwaith yn cynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul.  Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

| Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Ystalyfera | | |
|---|---|---|
| | **Lleoliad y Swyddfa Bost ar hyn o bryd** | **Lleoliad arfaethedig y gangen Swyddfa'r Post newydd (yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus lleol)** |
| **Cyfeiriad** | 50 Heol y Wern<br>Ystalyfera<br>Abertawe<br>SA9 2LY | Ystalyfera Stores<br>47 – 49 Commercial Street<br>Ystalyfera<br>Abertawe<br>SA9 2HS |
| **Y Swyddfa Bost Oriau Agor** | Llun 09:00 – 12:30<br>13:00 – 17:30<br>Maw 09:00 – 12:30<br>13:00 – 17:30<br>Mer 09:00 – 12:30<br>13:00 – 17:30<br>Iau 09:00 – 12:30<br>13:00 – 17:30<br>Gwen 09:00 – 12:30<br>13:00 – 17:30<br>Sad 09:00 – 12:30<br>Sul Ar gau | Llun 07:00 – 22:00<br>Maw 07:00 – 22:00<br>Mer 07:00 – 22:00<br>Iau 07:00 – 22:00<br>Gwen 07:00 – 23:00<br>Sad 07:00 – 23:00<br>Sul 07:00 – 23:00 |
| **Pellter** | 350 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur. | |
| **Hygyrchedd** | **Mynediad a chyfleusterau**<br>Mae gan y gangen gyfredol ddrws llydan a mynediad gwastad. Y tu mewn, mae lle i gadair olwyn.<br><br>**Parcio**<br>Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd. | **Mynediad a chyfleusterau**<br>Ar hyn o bryd mae yna ris wrth y fynedfa i'r adeilad arfaethedig, ond byddai ramp a drws awtomatig yn cael eu gosod er mwyn hwyluso'r mynediad.<br>Y tu mewn, ceid dolen glyw a lle ar gyfer cadair olwyn.<br><br>**Parcio**<br>Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd ger yr adeilad arfaethedig. |
| **Y Siop** | Cardiau a deunydd cyfathrebu | Siop Gyfleustra |
| **Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau** | 18 Gorffennaf 2018 | |
| **Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben** | 05 Medi 2018 | |
| **Mis y newid arfaethedig y newid** | Tachwedd/Rhagfyr 2018 | |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

| **Swyddfa'r Post® Ystalyfera gwasanaethau ar gael** | | |
|---|---|---|
| **I gael gwybodaeth ynghylch cynhyrchion sydd ar gael ffoniwch 03452 223344 neu os ydych am wybod beth yw gwerth uchaf trafodion siaradwch â'r sawl sydd y pen arall i'r ffôn. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn [www.postoffice.co.uk](http://www.postoffice.co.uk)** | | |
| | **Cangen bresennol** | **Cangen newydd** |
| **Post** | | |
| Post Dosbarth Cyntaf & Ail Ddosbarth | ✓ | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stamp (Dosbarth 1af 6 & 12 yn unig, 2il Ddosbarth 12 yn unig) | ✓ | ✓ |
| Stampiau arbennig (argraffiad Nadolig yn unig) & labelau postio | ✓ | ✓ |
| Royal Mail Signed For™ | ✓ | ✓ |
| Royal Mail Special Delivery™ | ✓ | ✓ |
| Dychweliadau Siopa o Gartref | ✓ | ✓ |
| Parseli mewndirol bach a chymedrol | ✓ | ✓ |
| Parseli Cyflym a Chytundeb | ✓ | ✓ |
| Post Y Lluoedd Prydeinig (BFPO) | ✓ | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post rhyngwladol (yn.cynnwys 'Signed For'™ & 'Airsure'™) | ✓ | ✓ |
| Pecynnau Rhyngwladol hyd at 2kg & phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ | ✓ |
| Parseli rhyngwladol Parcelforce Worldwide | ✓ | ✓ |
| Eitemau i'r deillion (mewndirol & rhyngwladol) | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth Ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth Casglu Eitemau | ✓ | ✓ |
| **Gwasanaethau bancio & Throsglwyddo Arian** | | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ | ✓ |
| Bancio personol a busnes: codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw). | ✓ | ✓ |
| Archebion Post | ✓ | ✓ |
| 'Moneygram'™ | ✓ | ✓ |
| **Taliadau Bil** | | |
| Taliadau bil awtomatig (cerdyn neu fargod) | ✓ | ✓ |
| Ail-siarsio allweddi | ✓ | ✓ |
| **Trwyddedi** | | |
| Trwyddedi wialen bysgota | ✓ | ✓ |
| **Teithio** | | |
| Arian teithio wedi'i archebu 'mlaen llaw | ✓ | ✓ |
| Arian teithio Ar Alw | Ewros | Ewros |
| Cyfeireb Yswiriant Teithio | ✗ | ✓ |
| Yswiriant Teithio Ar Alw | ✓ | ✗ |
| | | |
| Ail-siarsio ffôn symudol& thalebau E | ✓ | ✓ |
| Terminal Loteri Genedlaethol | ✓ | ✓ |
| **Taliad â siec** | ✓ | ✓ |
| Mae cynhyrchion wedi eu marcio â ✗ar gael yn Swyddfa'r Bost **Pontardawe,** 18 y Stryd Fawr, Pontardawe, Abertawe, SA8 4HU | Amseroedd agor:<br>Llun – Gwe 08:00 – 17:30<br>Sad 08:30 – 13:30 | |

## Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post®

**Beth yw Cod Ymarfer?**
Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys y canllawiau rydym yn eu dilyn. Maent yn dweud wrthym sut a pha bryd i ddweud wrthych am newidiadau i'ch gwasanaethau Swyddfa'r Post lleol. Rydym wedi gweithio ar y canllawiau hyn gyda'r corff gwarchod statudol annibynnol i ddefnyddwyr, sef ym Mhrydain Fawr Cyngor ar Bopeth a Citizens Advice Scotland, ac yng Ngogledd Iwerddon y Cyngor Defnyddwyr.

**Pa fath o newidiadau mae'n ei gynnwys?**
Gwybodaeth am ba bryd rydym yn bwriadu symud neu gau un o'm canghennau neu wasanaethau allanol. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â changen sydd wedi cau yn ddisymwth am fod rhywbeth annisgwyl fel llif neu dân wedi digwydd.

**Wrth bwy rydym yn dweud am y newidiadau?**

Wrthych chi a'ch cynrychiolwyr (yn aml, Aelodau Seneddol neu'r cynghorau ac awdurdodau lleol).

**Sut y byddwn yn dweud wrthych beth sy'n digwydd?**
Os oes newid bach - fel newid amseroedd agor, yna byddwn yn gadael i chi wybod drwy osod posteri yn Swyddfa'r Post. Os yw'r cynllun yn cynnwys symud Swyddfa'r Post neu gau cangen yn barhaol, byddwn yn arddangos posteri a dosbarthu llythyrau yn y gangen yn ogystal ag ysgrifennu at eich cynrychiolwyr. Bydd datganiad i'r wasg a bydd y wybodaeth berthnasol yn rhwydd dod o hyd iddi ar ein gwefan.

**Pa mor hir y bydd hyn yn ei gymryd?**
Byddwn yn gadael i chi wybod am unrhyw newidiadau cyn gynted ag sydd bosibl. Weithiau, mae newidiadau y tu hwnt i'n rheolaeth ni ond ceisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd. Ceisiwn sicrhau eich bod yn cael 4 wythnos o rybudd cyn i unrhyw beth ddigwydd. Os ydym am wneud newidiadau sylweddol, bydd cyfnod o ymgynghori sy'n parhau tua 6 wythnos. Mae hyn yn golygu fod amser i chi fynegi'ch barn wrthym.

**Mae'n rhwydd rhoi eich barn i ni…**
Rydym yn dymuno gwybod beth yw'ch teimladau chi a'ch cynrychiolwyr parthed newidiadau ac er mwyn gwneud yn sicr ei bod yn rhwydd i chi adael i ni wybod, mae'n holl fanylion cysylltu i'w gweld ar ein posteri a'n llythyrau. Medrwch gysylltu â ni drwy ebost, llythyr neu dros y ffôn.

**Sut cewch chi wybod am ein cynlluniau terfynol?**
Byddwn yn gadael i chi wybob mewn cynifer o ffyrdd ac sydd bosibl. Bydd posteri'n cael eu harddangos o fewn neu o gwmpas eich ardal leol i'ch hysbysu o'r hyn sy'n digwydd. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at gynrychiolwyr lleol a bydd y wybodaeth ar gael ar ein gwefan.
Os ysgrifennwch atom i ddweud eich barn, byddwn yn sicrhau y cewch wybod am ein cynlluniau terfynol un ai drwy ysgrifennu atoch neu drwy ofalu bod y wybodaeth ar gael yn hawdd yn Swyddfa'r Post neu ar ein gwefan.

**Be allwch chi ei wneud os ydych yn credu nad ydym wedi dilyn y Cod Ymarfer?**
Os ydych yn credu nad ydym wedi dilyn y Cod Ymarfer, a fyddech gystal ag ysgrifennu atom ni os gwelwch yn dda neu anfonwch e-bost atom gan ddefnyddio'r manylion cysylltu a gynhwysir yn y llythyr hwn a dywedwch pam eich bod yn credu hyn.
I gael golwg ar y Cod Ymarfer cyflawn, ewch i'n gwefan yn

www.postofficeviews.co.uk